OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1058 (Cy. 238)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aberaeron, Ceredigion) (Terfynau Cyflymder 40 mya ac 20 mya) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Medi 2020* |
| *Yn dod i rym* | *5 Hydref 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a), 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aberaeron, Ceredigion) (Terfynau Cyflymder 40 mya ac 20 mya) 2020 a daw i rym ar 5 Hydref 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) ac adran 81(1A) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor; ac

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

**6.** Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Medi 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser**

Y darn o'r gefnffordd yn Aberaeron, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 81 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion hyd at bwynt 14 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol yr Odyn.

**ATODLEN 2**
**Terfyn Cyflymder 20 mya**

Y darn o'r gefnffordd yn Aberaeron, Ceredigion, sy'n ymestyn o bwynt 14 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol yr Odyn hyd at bwynt 13 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd y Gaer.

**ATODLEN 3**
**Terfyn Cyflymder 40 mya**

Y darn o'r gefnffordd yn Aberaeron, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 782 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion hyd at bwynt 81 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.